OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2840 (Cy.256)

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *25 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Tachwedd 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 57(1), (3), (6) a (7) a 64(6) o Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau i Reoliadau 2004

**2.** Diwygir Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004(**2**) fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 3—

(i) ym mharagraff (1) hepgorer y geiriau "a os daw o fewn disgrifiad ym mharagraff (2);";

(ii) hepgorer paragraff (2);

(b) yn rheoliad 5(1) hepgorer y geiriau o "sy'n dod o fewn" i "(2)(b) o'r rheoliad hwnnw".

(**1**) 2001 p.15. Mae adran 66 o Ddeddf 2001 yn diffinio "rheoliadau" fel "rheoliadau wedi'u gwneud gan yr awdurdod perthnasol" a'r "awdurdod perthnasol" fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr). *Gweler* adran 57(8) o Ddeddf 2001 i gael y diffiniad o "prescribed".

(**2**) O.S. 2004/1748

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

25 Hydref 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad 3 o Reoliadau 2004 er mwyn darparu bod pob person y mae awdurdodau lleol Cymru wedi penderfynu darparu gwasanaethau gofal yn y gymuned iddo yn berson rhagnodedig at ddibenion Rheoliadau 2004.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliad 5 o Reoliadau 2004 gyda'r effaith bod rhaid i'r awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol, yn hytrach na darparu gwasanaethau'n uniongyrchol, i bob person rhagnodedig o dan reoliad 3 os yw'r person hwnnw wedi cytuno i dderbyn taliadau o'r fath ac nad yw wedi ei eithrio fel arall rhag eu derbyn o dan Reoliadau 2004.